

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Llanrwst, Bwrdeistref Sirol
Conwy) (Gwahardd Cerbydau a
Beicwyr Dros Dro) 2022

The A470 Trunk Road (Llanrwst,
Conwy County Borough)
(Temporary Prohibition of Vehicles
& Cyclists) Order 2022

Gwnaed 22 Chwefror 2022

Made 22 February 2022

Yn dod i rym 28 Chwefror 2022

Coming into force 28 February 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2022.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2022 and this Order comes into force on 28 February 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road that extends from its junction with Parry Road to its junction with the A548 Denbigh

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy sy’n ymestyn o’i chyffordd â Ffordd Pari hyd at ei chyffordd â’r A548 Heol Dinbych a’r darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r A548 Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â’r B5106 y Bont Fawr.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Chwefror 2022

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Street and the length of the trunk road that extends from its junction with the A548 Denbigh Street to its junction with the B5106 Pont Fawr;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 28 February 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 February 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government